

Hunan-weinyddu meddyginiaethau - taflen wybodaeth i gleifion

Cymryd eich meddyginiaethau eich hun

Yn y cartref gofal hwn, efallai y gallwch fod yn gyfrifol am gymryd eich meddyginiaethau eich hun, os ydych yn mynegi dewis i wneud hynny, ac y teimlir bod hynny'n briodol. Gelwir hyn yn hunan-weinyddu eich meddyginiaethau.

- Os ydych yn dymuno bod yn gyfrifol am gymryd eich meddyginiaethau eich hun, bydd aelod staff sydd wedi'i gymhwyso'n briodol yn cynnal asesiad byr i wneud yn siŵr eich bod yn addas ar gyfer hunan-weinyddu.
- Os yw hunan-weinyddu yn briodol, caiff eich meddyginiaethau eu storio bob amser mewn cwpwrdd meddyginiaethau y gellir ei gloi wrth erchwyn eich gwely. Rhoddir allwedd i chi ar gyfer y cwpwrdd.
- Bydd staff y cartref gofal yn cadarnhau eich bod wedi cymryd eich meddyginiaethau ac yn diweddarau Cofnod Gweinyddu Meddyginiaethau y cartref gofal.

Nid yw hunan-weinyddu meddyginiaethau yn orfodol felly nid oes yn rhaid i chi gymryd rhan. Os na fyddwch yn cymryd rhan, bydd staff y cartref gofal yn gweinyddu eich meddyginiaethau.

Diogelwch meddyginiaethau

- Gall meddyginiaethau fod yn beryglus os na chânt eu defnyddio'n iawn.
- Eich cyfrifoldeb chi yw cadw'r meddyginiaethau a'r allwedd mewn man diogel. Os byddwch yn colli'r allwedd, rhowch wybod i aelod o staff y cartref gofal ar unwaith.
- Os bydd ymwelydd neu breswilydd arall yn ceisio cymryd eich meddyginiaethau rhowch wybod i aelod o staff y cartref gofal ar unwaith.
- Peidiwch â chymryd mwy na'r ddos a ragnodwyd.
- Peidiwch byth â rhannu eich meddyginiaethau gydag unrhyw un arall.
- Os byddwch yn anghofio cymryd dos o feddyginiaeth, rhowch wybod i aelod o staff y cartref gofal.